Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751

The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

**NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES**

# ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION
# CYFRIFON AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 RAGFYR 2014

R Lewis
Lewis &Co
19 Goodge Street
London
W1T 2PH

# ADRODDIAD YR ARHOLWR ANNIBYNNOL AT YMDDIRIEDOLWYR

## Cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2014

Yr wyf wedi arholi'r cyrifon a baratowyd yn ol fy nealldwriaeth o ofynion polisiau cyfrifyddol cymeradwy sy'n gyfredol.

## Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r arholwr annibynnol

Fel ymddiriedolwyr yr elusen yr ydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon: yr ydych o'r farn nad ydyw'r gofynion archwilio rhan 43(2) o Ddeddf Elusen 1993 (Y Ddeddf) yn addas i'ch sefyllfa. Fy ngyfrifoldeb i yw datgan, ar sail yr arferion a fanylir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a gyhoeddir gan y Comisiynwyr Elusen dan ran 43(7)(b) o'r Ddeddf, a ddaeth unrhyw faterion arbennig i'm sylw ai peidio.

## Sail adroddiad yr arholwr annibynnol

Cyflawnwyd fy arholiad yn unol a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Elusen. Y mae'r arholiad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrif a gedwir gan yr elusen, a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r cofnodion hynny. Y mae'n cynnwys hefyd ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu unrhyw ddatgeliadau yn y cyfrifon hynny, a cheisio eglurhad oddiwrchych chwi fel ymddiriedolwyr ynglyn ag unrhyw faterion o'r fath. Nid ydyw'r arferion a gyflawnwyd yn rhoi'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheiodol mewn archwilwiad cyfiawn ac oherwydd hynny nid wyf yn datgan barn ar yr argraff a roddir gan y cyfrifon.

## Datganiad yr arholwr annibynnol

Ni ddaeth unrhyw beth i'm sylw yn gysylltiedig â fy arholiad sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu mewn unrhyw fodd sylweddol:

(a) na chadwyd cofnodion cyfrif yr elusen yn unol â gofynion rhan 41 o'r Ddeddf

(b) nad ydyw'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2014, yn gyson â'r cofnodion hynny.

Ymhellach, ni ddaeth unrhyw beth i'm sylw yn berthnasol â fy arholiad a ddylid, yn fy marn i, ei gyflwyno i sylw'r ymddiriedolwyr er mwyn dealltwriaeth cywir o'r cyfrifon.

RW Lewis (signature) ................................ Dyddiad 25/2/15 ................................

R Lewis
Lewis &Co
19 Goodge Street
London
W1T 2PH

## ADRODDIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR

### Cofnodion cyfrif

Y mae rhan 41 yn gosod rheidrwydd ar ymddiriedolwyr i sicrhau digonedd y cofnodion cyfrif i:

(a) ddangos ac egluro holl weithredau'r elusen

(b) ddatgelu, unrhyw bryd, gyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen bryd hynny.

(c) alluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod unrhyw ddatganiad o gyfrif sy'n angenrheidiol dan ran 42(1) yn unol â gofynion unrhyw reolau a wneir dan y rhan honno.

ac, yn arbennig, i gynnwys:

(d) cofnodion yn dangos, o ddydd i ddydd, holl dderbyniadau a thaliadau ariannol yr elusen a'r materion y mae'r derbyniadau a'r taliadau hynny yn digwydd o'u herwydd; a

(e) chofnod o asedion a dyledion yr elusen.

Y mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am warchod asedion yr elusen a thrwy hynny yn gyfrifol am wneud trefniadau rhesymol i ddatgelu ac atal twyll, camgymeriad neu unrhyw gamweinyddu arall.

Wrth baratoi'r cyfrifon disgwylir i'r ymddiriedolwyr ddewis polisiau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson, gan farnu ac amcangyfrif yn ddarbodus ac yn rhesymol.

## NODYN GAN Y TRYSORYDD MYGEDOL

Fe gomisiynwyd ail argraffiad o'r Trafodion yn 2013 ac fe gyhoeddwyd hwn yn 2014. Mae'r gost yma wedi ei gyfrif yn barod yng ngyfrifon 2013. Ni chaiff agraffiad arall ei gyhoeddi yn 2014. Mae'r Gymdeithas wedi penderfynnu recordio rhif y medalau mewn man arall ac felly nid oes nodyn amdanynt yn y cyfrifon hyn. Mae'r swm o £79 a ddangoswyd yn y Rhestr Asedau 2013 wedi ei ddileu yn y cyfrifon hyn. Hefyd, mae'r Gymdeithas wedi buddsoddi mewn wefan newydd ac wedi cyfrannu at waith parhaol ar Y Bywgraffiadur Cymreig. Mae cost y ddau eitem yma wedi ei gynnwys yn y cyfrifon hyn. Yn olaf, fe derbyniwyd £3,058 oddiwrth elusen arall.

## DERBYNIADAU A THALIADAU

| | | **2014** | | 2013 |
|---|---|---|---|---|
| **DERBYNIADAU** | | | | |
| Tanysgrifiadau | | 19,846 | | 19,313 |
| Cyfraniad Cymdeithas Sir Drefaldwyn | | 200 | | 200 |
| Incwm buddsodiadau | 4,607 | | 2,822 | |
| Llôg Banc Cynilo Cenedlaethol | 185 | 4,792 | 184 | 3,006 |
| Gwerthiant "Y Bywgraffiadur Cymreig" | | 102 | | 49 |
| Gwerthiant cyhoeddiadau eraill | | 37 | | 687 |
| Ad-daliad Treth Rhodd Gymorth | | 3,299 | | 2,181 |
| Cymdeithas Drwyddedu Cyhoeddwyr | | 327 | | 289 |
| Rhoddion | | 4,088 | | 1,030 |
| Incwm amrywiol | | 10 | | 26 |
| **CYFANSWM DERBYNIADAU** | | **32,701** | | 26,781 |
| **TALIADAU** | | | | |
| Treuliau cyfarfodydd | | 7,024 | | 6,113 |
| Y Trafodion | | 22 | | 8,944 |
| Datblygu'r wefan ac IT | | 9,385 | | 1,336 |
| Gohebiaeth y CCB | | 406 | | 480 |
| Rhaglen | | 633 | | 561 |
| Cyfrifyddion Siartedig | | 180 | | 180 |
| Bocs PO | | 0 | | 244 |
| Archifau | | 53 | | 218 |
| Gohebiaethau eraill | | 204 | | 176 |
| Gweinyddiaeth | | 93 | | 616 |
| Mân gostau | | 30 | | 43 |
| Costau'r Charities Aid Foundation | | 25 | | 536 |
| Medalau & cyflwyniadau | | 2,241 | | 1,988 |
| Prosiect Addysg | | 192 | | 0 |
| Marchnata | | 1,293 | | 500 |
| Rhodd at waith Y Bywgraffiadur Cymreig | | 5,000 | | 0 |
| **CYFANSWM TALIADAU** | | **26,781** | | 21,935 |
| **GORGED DERBYNIADAU TROS TALIADAU** | | **5,920** | | 4,846 |

**RHESTR ASEDAU AR 31 RAGFYR 2014**

| | **2014** | 2013 |
|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | **£** | £ |
| Buddsoddiadau am y gost (Nodyn 1) | 114,767 | 114,767 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | |
| Banc Cynilo Genedlaethol | 24,835 | 24,650 |
| HSBC Cyfrif Cyfredol | 18,254 | 12,836 |
| HSBC Cyfrif Adnau | 8 | 8 |
| HSBC Ail Cyfrif | 394 | 0 |
| Cyfrif PayPal | 2 | 0 |
| Stoc Medalau (2) | 0 | 79 |
| **ASEDAU CYFAN** | **158,260** | 152,340 |

**Nodyn 1**

| Buddsoddiadau | **2014 Am y Gost £** | **2014 Gwerth £** |
|---|---|---|
| M&G Charifund | 24,000 | 28,385 |
| M&G Charibond | 29,000 | 28,498 |
| Schroder Charity Equity Fund | 32,767 | 35,805 |
| Schroder Charity Bond Fund | 29,000 | 26,741 |
| | 114,767 | 122,429 |

**Nodyn 2:** Mae'r stoc o medalau wedi ei dileu a maent yn cael ei rhestri yn man arall.

**CYMOD CRONFAOEDD**

| | |
|---|---|
| Cronfaoedd 1 Ionawr 2014 | £152,340 |
| Gorged am y flwyddyn | £5,920 |
| Cronfaoedd 31 Rhagfyr 2014 | £158.260 |

**H R Wynne-Griffith**
Trysorydd Mygedol
Ar ran yr ymddiriedolwyr

25 Tachwedd 2015
**Dyddiad**